

# Cylchlythyr Ffes 3: Hydref 2022



## Llongyfarchiadau Blwyddyn 10 ac 11

Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion blwyddyn 10 ac 11 ar eu canlyniadau TGAU arbennig yn yr Haf. Diolch yn fawr i bob aelod o staff a fu'n gweithio gyda'r disgyblion i sicrhau eu llwyddiant. Pob dymuniad da i'r disgyblion sydd wedi gadael yr ysgol ac wedi symud ymlaen i astudio pynciau lefel A, pynciau galwedigaethol, prentisiaeth neu i fyd gwaith. Dymuniadau gorau hefyd i ddisgyblion blwyddyn 11 yn ystod eu blwyddyn olaf yn Ysgol Bro Idris.

### Digwyddiadau Elusenol

**Bore Coffi Macmillan:** Diolch i bawb am gefnogi Bore Coffi Macmillan ym mis Medi. Cawsom fore coffi ar bob safle a gêm bel-rwyd a rygbi staff yn erbyn disgyblion ar y brif safle. Gemau gystadleuol iawn! Casglwyd £1268.



**Bags2school:** Diolch o galon i bawb am gefnogi ein casgliad Bags2school. Llwyddom i gasglu £320



**Banc Bwyd Bermo:** Diolch i bawb am eu rhoddion hael i'r banc bwyd. Cafodd y dosbarth a gasglwyd y mwyaf o eitemau sef 7A y fraint o fynd yn y bws mini a oedd yn orlawn o eitemau i'r Banc Bwyd yn Bermo.



**18/11/22: Diwrnod Plant mewn Angen.** Diwrnod di-wisg ysgol (£1), cacennau ar werth amser egwyll a chinio, taflu dwr ar athrawon (50c) a gem bel droed staff v disgyblion (16/11 am 4:00, 50c),

**25/11/22: Gêm Cymru v Iran.** Gwisgo coch (£1 tuag at Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth), pawb yn gwyllo'r gêm am 10:00 a gig Cledrau yn y prynhawn.

**Diolch i Gyngor Ysgol Ffês 3 am drefnu.**

### **Taith Blood Brothers**

Ar y 27ain o Hydref, aeth dros 70 o ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 i Lerpwl i weld perfformiad Blood Brothers. Maent yn astudio Blood Brothers ar gyfer eu arholiadau TGAU, felly roedd yn gam naturiol i fynd i fwynhau perfformiad byw o'r stori. Pawb wedi mwynhau y profiad yn fawr iawn. Diolch yn fawr i Miss Hanna Williams am drefnu ac i'r staff am oruchwyllo.



### **Gwaith Maes Daeryddiaeth**

Yn ddiweddar, bu criw o ddisgyblion sy'n astudio TGAU Daeryddiaeth ar daith i gwblhau eu gwaith maes. Roeddent yn gweithio trwy'r dydd ym Mlaenau Ffestiniog ac yna ym Metws y Coed. Eu tasg oedd gofyn i aelodau'r cyhoedd am safon gwasanaethau eu tref a chwblhau arolygon ansawdd y gwasanaethau hyn. Diolch i Miss Cornes am drefnu.

### Disgo Calan Gaeaf

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu efo disgo calan gaeaf Ffes 1 a 2. Roedd criw o ddisgyblion Ffes 3 wedi gwirfoddoli i helpu, a roeddent yn brysur iawn yn addurno'r neuadd ac yn cynorthwyo trwy gydol y noson. Llwyddodd y Cyfeillion i gasglu £450.



### Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Dydd Gwener, 21ain o Hydref roedd hi'n Ddiwrnod Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth. Cynhaliodd pob safle Wasanaeth arbennig i egluro pwysigrwydd dangos parch i bob un person beth bynnag fo lliw, rhywioldeb, oedran. Mae'r ysgol wedi creu fidio Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth – cofiwch ei gwyllo ar dudalen Facebook Bro Idris.

### Pêl-rwyd

Llongyfarchiadau mawr i dîm pel rwyd Blwyddyn 9 a 10. Llwyddodd y merched ennill 4 allan o 5 o'u gemau yn nhrnamaint yr Urdd a oedd yn golygu eu bod yn 3ydd yng Ngogledd Cymru. Arbennig!



### Llwyddiant Cenedlaethol

Llongyfarchiadau mawr i Tesni Pugh, Dirprwy Prif Ddisgybl yr ysgol ar ei llwyddiant arbennig mewn cystadleuaeth gymnasteg Cymru yn Sophia Gardens, Caerdydd. Mae Tesni yn aelod o grŵp o dair merch sydd wedi ennill categori 1DP 2 mewn gymnasteg ac felly yn Bencampwyr Cymru 2022. Rhagorol Tesni.



**Taith Glan Llyn**  
Cafodd naw o ddisgyblion Blwyddyn 10 y cyfle i fynychu Cynhadledd Gyrfau Awyr Agored yng Nghlan Llyn yn

ddiweddar. Diwrnod oedd hwn i gael blas a phrofiad o'r gwahanol swyddi sydd ar gael yn y maes Awyr Agored. Bu i'r disgyblion fwynhau y profiad yn fawr iawn - er bod un wedi cael trochfa yn y llyn!

### Cyngor Ysgol

Dyma gyflwyno ein Prif Ddisgybl, dirprwyon, arweinyddion ac aelodau cyngorau Ysgol Bro Idris.  
**Prif ddisgybl:** Ifan Davies  
**Dirprwyon:** Dafydd Titley a Tesni Pugh  
**Swyddogion:** Oskar Jones, Maya Morgan, Stephen Hughes, Anya Sherlock, Georgie Parker, Chloe Wright a Heledd Savage  
**Aelodau Cyngor Ysgol Ffes 3:** Jess Hayward, Magi Jones, Harri Evans a Siôn Aled.  
**Cyngor Iaith:** Cadi Williams, Mari Manzini-Hughes, Elin Williams a Gwendal Davalan  
**Cyngor Eco:** Lukas Baker, Ethan Hulme, Awel Gunton a Riley Rogers  
**Cyngor Iechyd a Lles:** Elen Pike, Nia Pugh, Gweno Jones a Zak Tysvaer-Leeds

Dyddiad:	Gweithgaredd:
28/10/22	Hanner Tymor
7/11/22	Disgyblion yn dychwelyd
14/11/22	Noson Rien Blwyddyn 11 Wythnos gwrth-fwlio
18/11/22	Diwrnod Plant mewn Angen
21/11/22	Tempest – tynnu lluniau BI 11
28/11/22	Ffug arholiadau BI 11
5/12/22	Ffug arholiadau BI 10
20/12/22	Cinio Nadolig
22/12/22	Eisteddfod Ysgol Diwrnod olaf y tymor
9/1/23	Disgyblion yn dychwelyd

### Pwyntiau Cyswllt Ffês 3

Mewn cyfnod mor anodd a digynsail, cofiwch ein bod yma i gefnogi pob rhiant a disgybl. Os ydych yn awyddus i drafod unrhyw fater mae croeso i chi gysylltu gyda ni.

**Pennaeth Cynorthwyol Ffês 3**  
**Miss Melanie Cooper**

**Anogwr Dysgu Safonau a Lles Ffês 3**  
**Mrs Awel Davies**